CANOLFAN MILENIWM CYMRU
WALES MILLENNIUM CENTRE

Canolfan Mileniwm Cymru
SAFONAU IAITH GYMRAEG – sut y byddwn yn cwrdd â'r safonau

Mae safonau newydd wedi eu cyflwyno ar gyfer yr iaith Gymraeg. Mae'r safonau yn rhoi trefn gyfreithiol mewn lle er mwyn sicrhau hawliau i bobl gael mynediad at wasanaethau yn Gymraeg.
Cafodd y safonau eu cyflwyno fel rhan o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ac mae Comisiynydd yr Iaith Gymraeg yn sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn cydymffurfio gyda'r safonau.
Rydym wedi llunio'r ddogfen hon er mwyn amlinellu sut y byddwn ni yng Nghanolfan Mileniwm Cymru yn cydymffurfio â'r safonau iaith.

Ysgrifennu atom

1. Os ydych yn ysgrifennu llythyr neu e-bost atom gallwch wneud hynny yn Gymraeg a byddwn yn ymateb yn Gymraeg.
2. Os byddwn yn ysgrifennu atoch chi am y tro cyntaf neu os nad ydym yn gwybod ym mha iaith yr hoffech dderbyn gohebiaeth gennym byddwn yn ysgrifennu atoch yn ddwyieithog.
3. Pan fyddwn yn ysgrifennu at lawer o bobol ar yr un pryd byddwn yn gwneud hynny yn ddwyieithog bob tro.
4. Ni fyddwn yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg pan fyddwn yn anfon llythyrau neu e-byst allan i'r cyhoedd am y tro cyntaf.
5. Rydym yn dweud yn glir yn ein gohebiaeth, mewn hysbysiadau a chyhoeddiadau ein bod yn croesawu cyswllt yn y Gymraeg.

Cysylltu ar y ffôn

1. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn ein Canolfan Gyswllt yn Gymraeg ac yn Saesneg.
2. Bydd pob aelod o'n staff sy'n derbyn galwadau ffôn yn uniongyrchol gan y cyhoedd yn cyfarch yn Gymraeg.
3. Rydym yn rhoi dewis iaith i unigolion sy'n ffonio ein prif rif cyswllt – ac mae'r neges sy'n cyfarch ac yn cynnig y dewis yn ddwyieithog.
4. Os ydych yn dewis yr opsiwn Cymraeg ar ein prif rif ffôn byddwn yn cynnal y sgwrs gyfan gyda chi yn Gymraeg.
5. Pan fyddwch yn ein ffonio ni rydym yn gofyn am eich dewis iaith ac yn cofnodi hynny ar ein bas-data.

6. Os byddwch yn ffonio rhif uniongyrchol aelod o staff ac nad yw'r person hwnnw yn siarad Cymraeg bydd yn cynnig trosglwyddo'r alwad i gydweithiwr sy'n gallu siarad Cymraeg os yw hynny yn bosib.
7. Mae negeseuon ar ein prif rif ffôn yn ddwyieithog a gallwch adael neges i ni yn Gymraeg neu Saesneg.

Cyfarfodydd a digwyddiadau

1. Os byddwn yn gwahodd aelod o'r cyhoedd i gyfarfod byddwn yn gofyn a ydynt am gynnal y sgwrs yn Gymraeg ac yn trefnu cyfieithydd os mai dyna eu dymuniad.
2. Os byddwn yn gwahodd grŵp o'r cyhoedd i gyfarfod byddwn yn gofyn i'r mynychwyr a ydynt am gynnal y sgwrs yn Gymraeg, ac yn trefnu cyfieithydd ar y pryd os oes deg y cant neu fwy o'r mynychwyr yn dymuno hynny.
3. Pan fyddwn yn trefnu neu yn ariannu o leiaf hanner cyfarfod neu ddigwyddiad cyhoeddus, byddwn yn ei hyrwyddo, ei hysbysebu ac yn anfon gwahoddiadau allan yn ddwyieithog.
4. Os ydych yn mynychu cyfarfod neu ddigwyddiad cyhoeddus 'rydym wedi ei drefnu, mae croeso i chi gyfrannu yn Gymraeg a byddwn yn darparu offer cyfieithu.
5. Bydd deunyddiau a gwybodaeth ynglŷn ag unrhyw gyfarfod cyhoeddus ar gael yn ddwyieithog cyn ac yn ystod y cyfarfod
6. Weithiau rydym yn cynnal cyrsiau a sesiynau addysgiadol i'r cyhoedd yn y Ganolfan ac yn y gymuned – byddwn yn ystyried os oes galw ac angen i gynnal cyrsiau fel hyn yn Gymraeg ac yn cyhoeddi unrhyw asesiad o'r angen ar ein gwefan.

Cyhoeddiadau a deunydd ysgrifenedig

1. Bydd pob dogfen, deunydd hyrwyddo a hysbyseb rydym yn ei gynhyrchu ar gael yn Gymraeg a Saesneg a bydd y ddwy iaith yn cael lle mor amlwg â'i gilydd.
2. Byddwn yn hyrwyddo ein gwasanaethau Cymraeg yn ein Rhaglen dymhorol.
3. Byddwn yn sicrhau bod gwybodaeth a deunyddiau sy'n cael eu harddangos yng Nghanolfan Mileniwm Cymru yn Gymraeg ac yn Saesneg.
4. Byddwn yn cynhyrchu dogfennau yn ddwyieithog bob tro, ond os nad yw hynny yn bosib oherwydd maint y ddogfen - bydd fersiwn

Cymraeg ar gael ar yr un pryd â'r fersiwn Saesneg a byddwn yn nodi ar y Saesneg bod Cymraeg ar gael.
5. Bydd ein ffurflenni ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.
6. Mae'r ddwy iaith yn cael lle mor amlwg â'i gilydd ar ein hunaniaeth gorfforaethol.

Digidol ac ar y we

1. Mae ein gwefan yn gwbl ddwyieithog a byddwn yn diweddaru tudalennau Cymraeg yr un pryd ag y byddwn yn diweddaru'r rhai Saesneg.
2. Rydym yn sicrhau bod modd symud yn rhwydd rhwng y Gymraeg a'r Saesneg o bob tudalen ar ein gwefan.
3. Byddwn yn hyrwyddo ein gwasanaethau Cymraeg ar ein gwefan.
4. Mae adran arbennig ar ein gwefan sy'n cadw'r holl wybodaeth ynglŷn â sut mae Canolfan Mileniwm Cymru yn cydymffurfio gyda'r safonau iaith - byddwn yn diweddaru'r adran hon yn rheolaidd.
5. Rydym yn defnyddio Twitter, Facebook ac Instagram i gyfathrebu gyda chwsmeriaid a rhan-ddeiliaid a byddwn yn defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg ar y tri cyfrwng.
6. Os ydych yn anfon neges atom ar y cyfryngau cymdeithasol byddwn yn ateb yn iaith y neges wreiddiol.

Yng Nghanolfan Mileniwm Cymru

1. Rydym yn sicrhau bod staff sy'n siarad Cymraeg ar y ddesg flaen a'r swyddfa docynnau er mwyn darparu gwasanaeth dwyieithog i aelodau'r cyhoedd sy'n ymweld â Chanolfan Mileniwm Cymru.
2. Os ydym wedi trefnu cyfarfod gyda chi a'ch bod yn dweud wrthym ymlaen llaw eich bod eisiau gwasanaeth Cymraeg yn y dderbynfa yna byddwn yn trefnu hyn.
3. Byddwn yn arddangos arwydd yn ein derbynfa Drws y Llwyfan a'r ddesg flaen yn dweud bod croeso i chi sgwrsio gyda ni yn Gymraeg.
4. Bydd staff Canolfan Mileniwm Cymru ar y ddesg flaen a Drws y Llwyfan sy'n siarad Cymraeg yn gwisgo bathodyn fel y gallwch eu hadnabod.
5. Bydd ein harwyddion i gyd yn ddwyieithog – y rhai parhaol a'r rhai dros dro, ac rydym wedi rhoi trefn mewn lle er mwyn sicrhau eu bod yn gywir.

6. Pan fyddwn yn gwneud cyhoeddiad dros y system sain byddwn yn gwneud yn Gymraeg yn gyntaf ac wedyn yn Saesneg, oni bai bod argyfwng.

Tendro

1. Pan fydd Canolfan Mileniwm Cymru yn cyhoeddi tendr am wasanaethau, yna byddwn yn cyhoeddi'r gwahoddiad yn ddwyieithog.
2. Rydym yn croesawu tendrau yn Gymraeg a byddwn yn gwneud trefniadau i'r sawl sydd wedi tendro gyda ni i gael cyfweliad Cymraeg os mai dyma eu dymuniad.
3. Ni fyddwn yn trin unrhyw dendr rydym wedi ei dderbyn yn Gymraeg yn llai ffafriol na thendrau yn y Saesneg.

Llunio polisi

1. Pan fyddwn yn adolygu un o'n polisïau neu yn datblygu polisi o'r newydd byddwn yn ystyried unrhyw effaith y caiff y polisi hwnnw ar yr iaith Gymraeg a chyfleodd i ddefnyddio'r iaith.
2. Gyda phob polisi newydd ni fyddwn yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg a byddwn yn meddwl am ffyrdd y gall y polisi gael effaith bositif ar gyfleodd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg.
3. Yn yr un modd, wrth ymgynghori neu wneud gwaith ymchwil ar gyfer datblygu polisi, byddwn yn ystyried a gofyn barn am effaith y polisi ar y Gymraeg.

Fel cyflogwr

1. Rydym yn ymrwymo i'r egwyddor y gall ein staff fyw eu bywyd gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg yn unol â'r safonau – o lenwi ffurflen gais a chael cyfweliad, i drafod materion sy'n ymwneud â chyflogaeth.
2. Wrth recriwtio byddwn yn ystyried yr angen am sgiliau iaith Gymraeg ar gyfer pob swydd newydd neu swydd wag, a phan fyddwn yn hysbysebu swydd gyda'r angen am sgiliau iaith byddwn yn nodi hynny ac yn hysbysebu yn Gymraeg.
3. Gallwch ymgeisio am swydd gyda ni trwy gyfrwng y Gymraeg a byddwn yn cyfathrebu gyda chi am eich cais yn Gymraeg os mai dyma eich dewis chi.
4. Ni fyddwn yn trin ceisiadau am swyddi sydd wedi eu cyflwyno yn y Gymraeg yn llai ffafriol na rhai Saesneg.

5. Bydd ein polisïau sy'n ymwneud ag amodau gwaith ein staff sydd wedi eu rhestru o fewn y safonau ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.
6. Rydym yn annog staff i siarad Cymraeg yn y gwaith ac yn eu cefnogi a'u helpu i wella eu sgiliau iaith trwy drefnu gwersi yn ystod oriau gwaith.

Monitro a chadw trosolwg

Byddwn yn rhagweithiol ar y ffordd rydym yn monitro ein cydymffurfiaeth gyda'r safonau, a bydd yr Uwch Dîm Strategol yn arwain y broses yma. Bydd adroddiadau cynnydd yn cael eu paratoi i alluogi rheolwyr adnabod unrhyw feysydd gwella. Byddwn hefyd yn casglu tystiolaeth o gydymffurfio yn rheolaidd ac yn sicrhau ei fod ar gael i Gomisiynydd yr Iaith yn unol â'r gofyn.

Cadw cofnod ac adrodd yn flynyddol

Fel rhan o gydymffurfio gyda'r safonau iaith byddwn yn cyflwyno adroddiad i Gomisiynydd y Gymraeg bob blwyddyn. Bydd yr adroddiad yn egluro sut rydym wedi cwrdd â'r safonau i gyd, gyda thystiolaeth o sut rydym yn cwrdd â'r gofynion. Bydd yr adroddiad hefyd yn dangos os ydym wedi methu â chyrraedd unrhyw safon ac os oes unrhyw un wedi cwyno am ein darpariaeth iaith Gymraeg.

Pan fydd pethau'n mynd o chwith

Ein nod yw darparu'r gwasanaeth gorau posib bob amser, ond weithiau gall pethau fynd o'i le.
Gallwch gwyno wrthym os ydych yn teimlo nad ydym wedi cwrdd â'n dyletswyddau yn unol â'r safonau. Byddwn yn gwneud ein gorau i ddysgu ac i roi camau mewn lle i gywiro camgymeriadau. Cewch weld y weithdrefn gwyno ar ein gwefan.
Byddwn yn ymdrin â phob cwyn iaith yn ôl trefn gwyno a sylwadau Canolfan Mileniwm Cymru. Gallwch gyflwyno cwyn i ni trwy lythyr, ffôn neu e-bost. Y Ganolfan Gyswllt sy'n gyfrifol am gofnodi ac ymateb i gwynion. Bydd aelod o'r Uwch Dîm Rheoli yn monitro, a byddwn yn rhoi adborth ar ein cynnydd i reolwyr a staff perthnasol. Byddwn yn adrodd ar unrhyw gwynion sy'n ymwneud â'r safonau a'r iaith i Gomisiynydd y Gymraeg yn flynyddol.

Ac yn olaf...

CANOLFAN MILENIWM CYMRU
WALES MILLENNIUM CENTRE

Rydym yn ymrwymo i sicrhau ein bod yn cydymffurfio yn llawn gyda'r safonau ac yn awyddus i hynny fod mewn ffordd naturiol a chyfeillgar. Mae'n gyfrifoldeb ar pawb sy'n gweithio yng Nghanolfan Mileniwm Cymru i'n helpu ni gyrraedd y nod yma. Bydd ein staff sy'n siaradwyr Cymraeg, a'r rhai sy'n dysgu yn allweddol i hyn, ond byddwn hefyd yn cefnogi ac yn rhoi trefniadau mewn lle i sicrhau bod staff di-Gymraeg yn deall ein dyletswyddau.

Er mwyn cyrraedd gofynion y safonau byddwn yn cymryd nifer o gamau, gan gynnwys:

- Sicrhau bod ein staff i gyd yn derbyn sesiynau ymwybyddiaeth iaith a hyfforddiant ynglŷn â gofynion y safonau a defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle
- Darparu meddalwedd a thempledi i staff i'w helpu i gydymffurfio gyda'r safonau yn eu gwaith o ddydd i ddydd
- Cynnig cefnogaeth cyfieithu a phrawf ddarllen ble bo'r angen
- Llunio polisi ar ddefnyddio Cymraeg yn y gweithle
- Gweithio gydag arbenigwyr annibynnol i'n cynghori ni ar faterion cydymffurfio

  Am fwy o wybodaeth...

  Mae rhestr lawn o'r holl safonau sydd wedi eu gosod arnom ar ein gwefan ac ar wefan Comisiynydd yr Iaith www.comisiynyddygymraeg.cymru. Mae mwy o wybodaeth am y safonau a Mesur y Gymraeg ar wefan y Comisiynydd hefyd.

  Mae croeso i chi gysylltu â ni os ydych am gael mwy o wybodaeth.
  029 2063 6464
  wmc.org.uk
  adborth@wmc.org.uk
  Neu ar ein cyfryngau cymdeithasol...Facebook/Instagram